### *Logos Hope*

Fis Mai 2007, derbyniwyd neges annisgwyl ar wefan y Garn, a hynny gan Jean Elysé Rajaofetra o Fadagascar. Rhwng 2003 a 2004 roedd hi wedi bod yn gweithio ar ran Eglwys Madagascar ym Mhen-rhys yn y Rhondda. Wedi iddi ddychwelyd i Fadagascar, teimlodd alwad i ymuno â llong genhadol *Doulos*, dan nawdd Operation Mobilisation International (www.om.org). Roedd wedi dod o hyd i'n gwefan drwy ddolen o wefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ac yn chwilio am nawdd i'w galluogi i gael ei hyfforddi i gyflawni'r gwaith. Penderfynodd y Swyddogion gefnogi ei chais ac fe lwyddodd Elysé i godi digon o arian i gwblhau ei chwrs. Roedd yn eithriadol o ddiolchgar am y nawdd, ac mae'n cysylltu'n rheolaidd i adrodd ei hanes.

Mae Elysé bellach yn gweithio ar *Logos Hope*, llong fferi a adnewyddwyd a'i haddasu ar gyfer gwaith cenhadol. Yn ystod Ebrill–Mehefin eleni ymwelodd â Chaeredin, Caerdydd a Belfast, a threfnwyd penwythnos o ddathliadau i lansio'r llong i waith cenhadol yn Llundain ar 26–28 Mehefin cyn iddi gychwyn ar ei thaith gyntaf i Kingstown, Saint Vincent, yn y Caribî.

Ers eu sefydlu yn 1970 mae llongau Operation Mobilisation wedi:

- croesawu dros 35 miliwn o bobl ar eu llongau
- dosbarthu dros 50 miliwn o rannau o Air Duw
- sefydlu partneriaethau gyda 50,000 o eglwysi dros y byd i gyd
- hyfforddi dros 10,000 o bobl i fywyd a gwasanaeth.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: www.logoshope.org


**_Swyddogion yr Ofalaeth_**

*Cadeirydd*: T. Alwyn Hughes, Gellinebwen, Capel Madog, Aberystwyth, SY23 3JA (01970 880859)

*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; glannant@googlemail.com (01970 832672)


Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **13 Medi** i:


Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
(01970 828026)
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
(01970 828662)
marian_hughes@btinternet.com



Babell Y Garn Gerlan Madog Nasareth Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Nasareth Madog Gerlan Y Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 8 — Haf 2009




Annwyl ffrindiau,

Cwestiwn a ofynnir yn aml y dyddiau hyn yw'r cwestiwn ai Duw ynteu ddyn sy'n dod gyntaf. A ydym i ddechrau gyda Duw, neu a ydym i ddechrau gyda dyn? Y mae'r Beibl yn gwbl glir ar y mater. Duw a wnaeth y byd. Ond beth am safbwynt y gwyddonydd? Yn ei esboniad ar rannau o Lyfr Genesis a gyhoeddwyd yn 2005, yng nghyfres *Esboniadau y Beibl Cymraeg Newydd*, fe ddywed Dr Noel A Davies: "Y mae cytundeb cyffredinol ymhlith cosmolegwyr, sef gwyddonwyr sy'n astudio'r bydysawd, mai tua 15 biliwn o flynyddoedd yn ôl y dechreuodd y bydysawd a hynny gyda'r Glec Fawr (*Big Bang*). Nid yw'r ddamcaniaeth hon mewn unrhyw fodd yn anghyson â chred Genesis mai Duw roddodd gychwyn i'r bydysawd … Mae gwyddoniaeth yn ateb y cwestiwn "Sut" tra bod Genesis yn gofyn "Pam?"

At hynny, nid yw damcaniaeth Charles Darwin ar esblygiad, y clywsom cymaint o sôn amdani yn ddiweddar, yn tanseilio'r gred mai Duw a greodd y byd. Nid yw'n anghyson ychwaith â'r hyn a groniclir yn Genesis. Yr hyn a wnaeth Darwin yn ei astudiaeth enwog, *On the Origin of Species by means of Natural Selection*, a gyhoeddwyd yn 1859, oedd dangos nad disgrifiad gwyddonol o'r Creu a geir yn Llyfr Genesis ond dehongliad diwinyddol o ddechreuadau pob peth. Yn wir, cyhoeddodd y Pab Benedict XVI yn ddiweddar na welai ef unrhyw anghysondeb rhwng damcaniaeth Darwin a'r ffydd Gristnogol. "Mewn gwirionedd, yr hyn a olygir wrth esblygiad yw'r byd fel y'i crëwyd gan Dduw," meddai llefarydd ar ran y Fatican. Yn wahanol i farn rhai pobl, nid oedd Darwin yn dadlau yn erbyn bodolaeth Duw. Nid oedd yn elyn i'r ffydd Gristnogol. Ym mrawddegau olaf ei lyfr *Origin of Species*, dywed yr awdur, "Y mae rhyfeddod yn y dehongliad hwn o fywyd, gyda'i amrywiol bwerau, wedi eu dwyn i fod yn wreiddiol gan y Creawdwr … a thra oedd y blaned hon yn cylchdroi yn unol â deddf disgyrchiant, o ddechreuad mor syml y daeth ffurfiau diddiwedd i fod."

Y mae athrawiaeth y creu yn un o athrawiaethau craidd y ffydd Gristnogol. Nid dibwys nac anarwyddocaol mohoni. Yn ôl yr athrawiaeth hon, Duw greodd y byd a phopeth sydd ynddo. Adleisir hynny yng nghymal cyntaf credo'r Eglwys Gristnogol: "Credaf yn Nuw, y Tad Hollalluog, creawdwr nef a daear." Dengys y Creu sut un yw Duw. Down i wybod am ei natur, ei gymeriad a'i allu. Ef yw'r ffynhonnell; ef yw'r cynllunydd; ef yw'r gwneuthurwr. "Yn y dechreuad creodd Duw y nefoedd a'r ddaear" (Genesis 1:1). Crëwyd y byd drwy ei air; daeth trefn allan o anhrefn; daeth goleuni i drechu tywyllwch. Byd â Duw a'i fawredd, a'i ogoniant a'i dra-arglwyddiaeth yn ganolbwynt iddo yw hwn.

Ond doedd hyn ddim yn ddigon i Gwynn, ac aeth ati'n ddiymdroi i godi rhagor o arian. Efallai eich bod yn cofio iddo ddod i roi sgwrs yng Nghymdeithas Lenyddol y Garn ym mis Chwefror 2008 a sôn am ei ymweliad, ac fe wnaed cyfraniad gan Gapel y Garn i'r gronfa.




Trwy haelioni pobl Cymru eto, fe agorwyd uned gofal dwys i fabanod yn Jowai yn 2008. Gosodwyd offer modern yn yr uned ac eisoes mae llawer o fywydau ifanc wedi eu hachub, yn ôl Dr Kalpana, sy'n gweithio yno.

Erbyn hyn mae Cronfa Jowai yn derbyn rhoddion tuag at brynu offer ar gyfer theatr llawdriniaethau newydd. Eisoes, fe gasglwyd bron i £9,000 tuag at y nod o £50,000.

Mae athroniaeth ac egwyddorion Cristnogol yn amlwg yng ngwaith Ysbyty Jowai. Mae pob diwrnod yn dechrau gyda gwasanaeth yn eu capel am 7.30 o'r gloch. Mae gweddi'n ganolog yn y gweithle. Ac er bod angen talu am driniaeth feddygol yn India, nid ydynt yn gwrthod yr anghenus.

Os hoffech gefnogi Cronfa Jowai, dylid anfon unrhyw gyfraniad i'r cyfeiriad: 54 Hen Gei Llechi, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4PD

(Addaswyd o'r *Goleuad*, 22 Mai 2009) *Marian B Hughes*

***Jones yn Jowai***

Yn 2006 aeth Gwynn Angell Jones a'i wraig Enid ar ymweliad â Jowai, India, lle ganed ac y magwyd Gwynn yn fab i genhadon hyd nes oedd yn 10 oed.

Un o'r mannau yr aethon nhw i ymweld ag ef oedd Ysbyty Jowai, lle cawsai Gwynn driniaeth pan oedd yn wyth oed. Yn anffodus, dinistriwyd hanner yr ysbyty gan dân trychinebus yn Ebrill 2001. Collwyd y theatr llawdriniaethau, ond cyn i'r fflamau gymryd gafael, aethpwyd ati i geisio achub offer gwerthfawr. Llwyddodd 17 o ddynion cyhyrog i daflu'r bwrdd llawdriniaethau allan drwy'r ffenest ac i lawr y llethr gerllaw. Yn anffodus, roedd angen 30 i'w lusgo'n ôl cyn ei osod mewn ystafell dros dro.




Sbardunwyd Gwynn i fynd ati i godi arian i geisio gwella'r cyfleusterau yn yr ysbyty, ac fe aeth ati i sefydlu Cronfa Jowai.

Defnyddiwyd yr arian a gasglwyd yng Nghymru yn 2007 ar gyfer dwy ystafell i greu clinig Clust, Trwyn a Gwddf (ENT).




Hwn oedd y clinig cyntaf o'i fath ar fryniau Jainta, a'r buddsoddiad o £18,000 yn prynu cymaint mwy nag y byddem yn ei ddisgwyl gan fod prisiau offer meddygol yn India gymaint llai nag yn Ewrop.

Nid oes yr un darn o'r byd nad yw o dan ei lywodraeth Ef. Duw prysur a gweithgar ydyw hefyd. Fel hynny y darlunnir Duw bob amser yn y Beibl. Y mae'r Salmau yn llawn cyfeiriadau at Dduw sydd yn parhau i gynnal ac adnewyddu ei greadigaeth. Dywedodd yr Iesu, "Y mae fy Nhad yn dal i weithio hyd y foment hon …" (Ioan 5:17). Ac yn ôl yr athronydd Philo yn y ganrif gyntaf, "Nid yw Duw yn peidio â chreu, oherwydd gan mai nodwedd gynhenid tân yw llosgi a nodwedd gynhenid rhew yw rhewi, felly hefyd nodwedd gynhenid Duw yw creu."

Y mae'r Creawdwr hwn, a elwir gennym yn "Dduw", yn wybyddus nid yn unig yn ei greadigaeth, ond ym mherson ei Fab, yr Arglwydd Iesu Grist. "Yn y dechreuad yr oedd y Gair," ysgrifennodd Ioan, "ac yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair. Yr oedd ef yn y dechreuad gyda Duw. Daeth pob peth i fod trwyddo ef, hebddo ef ni ddaeth un dim i fod." (Ioan 1:1–3) Y mae ein hamgyffred o ddechreuadau'r bydysawd ynghlwm wrth ein perthynas â Iesu Grist. Ni ellir eu datgysylltu. Drwy ein perthynas â Christ y down i ddeall y rhesymau dros ein bodolaeth yn y byd. Y mae'r goruchaf Dduw yn ein galw i berthynas agos ag ef. Y mae hyn hefyd yn rhan o athrawiaeth y Creu. Cawsom ein gwahodd i fwynhau ei gwmni am byth. Duw yw creawdwr pob peth – ac Ef yw'r un yr ydym yn byw ynddo, yn symud ac yn bod (Actau 17:28). Y mae'r Un a ddaeth â'r byd i fod yn Un hefyd sydd yn poeni am ddoluriau a chreithiau'r bywyd dynol ac athrawiaeth y Creu sydd yn ein gorfodi i lynu wrth y gwirioneddau hyn.

Fel y daw gwyddonwyr ymhen amser i well amgyffrediad o ddirgelion y bydysawd a'i ddechreuadau, diau y down ninnau i weld y byd mewn goleuni gwahanol. Ond ni raid i hynny newid dim ar y modd yr edrychwn ar ein Creawdwr, gan i Dduw ddatguddio ei hun inni yn ei Fab, Iesu Grist, yr Hwn sydd yr un ddoe, heddiw ac am byth.

Arglwydd, cyfarwydda'n hymchwil
  a goleua'r deall hwn,
gad i'n dreiddio i'r hanfodion
  ac amgyffred cread crwn:
boed i'n meddwl fedru canfod
  gallu mwy na gallu dyn,
a phob arbrawf yn datgelu
  gronyn bach yn fwy o'r llun.


*Dafydd Whittall*

Haf dymunol i chi i gyd.

Yr eiddoch yng ngwaith y Deyrnas,

Wyn Morris (Bugail)

# Tudalen y Plant




Defnyddiodd yr Iesu ei ddwylo i weddïo, i fendithio pobl, ac i iacháu cleifion o bob math.

Y dasg y tro hwn yw ysgrifennu'r llythrennau cywir ar y llinellau.

Anfonwch eich atebion at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn **31 Gorffennaf**.

Fe fydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

Cofiwch ysgrifennu eich enw ar y dudalen.

Llongyfarchiadau i Teleri Morgan, y Garn, enillydd y gystadleuaeth yn y rhifyn diwethaf.

Wedi cyflawni saith mlynedd o addysg uwchradd, darganfyddais wyth mlynedd yn ddiweddarach yr eithafoedd yr aiff rhai gwyddonwyr iddynt er mwyn bytholi'r ddamcaniaeth. Mae'r syniad fod embryo dynol yn pasio drwy'r gwahanol bwyntiau esblygiadol (e.e. tagell pysgodyn, cynffon, a.y.y.b.) yn ystod misoedd cynnar ei ddatblygiad yn y groth – 'Hackel's theory of embryonic recapitulation', fel y'i gelwir – yn ymddangos mewn aml i werslyfr ac wedi ei ddysgu'n ffaith i genedlaethau niferus o ddisgyblion ysgol; mae Hackel ei hun wedi cyfaddef mai twyll ydyw [*Creation*, **20**(2), 49–51, Mawrth 1998] ond ei fod yn cael ei ddehongli er mwyn hyrwyddo damcaniaeth Darwin. Dyw hon ond un enghraifft o lawer niferus a allwn eu cyflwyno o ymgeisiadau tywyllodrus gwyddonwyr i brofi'r amhrofadwy.

Er mwyn i greadur syml, ungellog, esblygu yn greadur cymhleth, amlgellog, yn dybiedig dros filiynau o flynyddoedd, mae gwybodaeth genetaidd ychwanegol yn angenrheidiol, ond o ble y daw'r wybodaeth hon? Mae trawsblygiadau, y modd y mae gwybodaeth genetig yn newid, yn ddi-ball yn arwain at golled mewn gwybodaeth genetig. Dyw Richard Dawkins, yr esblygwr efengylaidd nodedig, ddim hyd yn oed yn medru meddwl am un enghraifft lle mae trawsblygiad yn arwain at gynnydd mewn gwybodaeth genetig. [Gweler DVD, 'From a Frog to a Prince', Creation Ministries International]

Os ydym ni sy'n Gristionogion am dderbyn comisiwn Crist yn Mathew 18:19–20: "Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi", ond yn gwrthod gwirionedd Genesis, sylfaen athrawiaeth y Beibl, yn gyfnewid am ddamcaniaeth, rydym yn colli'r pwynt yn llwyr ac yn colli'r frwydr i ennill eneidiau at Grist.

Os hoffai unrhyw un ragor o wybodaeth, byddaf yn barod i siarad â chi ymhellach, neu eich cyfeirio at y llyfrau / erthyglau priodol. Hefyd, edrychwch ar www.AnswersInGenesis.com; www.CreationOnTheWeb.com.

*Sharon King*
*4, Maes y Garn*

*Mewn ymateb i'r erthygl 'Steve Jones a Darwin'*
*yn rhifyn y Gwanwyn o 'Gair o'r Garn'*

Fel Cristnogion sy'n honni nabod Duw a chredu'r Beibl, credaf na allwn mewn unrhyw ffordd gytuno â damcaniaeth esblygiad. Os ydi esblygiad yn wir, ni all y Beibl fod.

Fel gwyddonwraig â gradd anrhydedd mewn 'Anatomical Science' a gradd mewn Milfeddygaeth, yr wyf wedi fy nhrwytho yn y ddamcaniaeth drwy gydol fy ngyrfa addysgiadol, ond rwyf wedi dod i'r canlyniad fod yr eglurhad yma o ddatblygiad dynolryw yn codi mwy o gwestiynau ac yn ateb dim.

Yn y Beibl mae Genesis 1 yn dweud wrthym y crëwyd y morfilod mawr, yr holl greaduriaid byw sy'n heigio yn y dyfroedd, pob aderyn asgellog, yr anifeiliaid, ymlusgiaid a'r bwystfilod gwyllt gan Dduw "**yn ôl eu rhywogaeth**" ond y crëwyd dyn yn nelw Duw (Gen. 1:27): *"Felly creodd Duw ddyn ar ei ddelw ei hun; ar ddelw Duw y creodd ef; yn wryw ac yn fenyw y creodd hwy."* Fel gwyddonwraig sydd hefyd yn Gristion, rwy'n credu gair Duw am y cread. Cyfaddefodd Syr Arthur Keith, a ysgrifennodd y rhagair i *The Origin of Species* (100fed argraffiad): "Evolution is unproved and unprovable. We believe it only because the only alternative is special creation, and this is unthinkable."

Os cymerwn ni sy'n proffesu i fod yn Gristionogion hanes y cread yn ffigurol, a dewis a dethol yr hyn yr hoffem ei fod yn wir, ble mae'n gorffen? Pa rannau eraill o'r Beibl a ddewiswn eu credu? Mae'r Iesu ei hun yn credu bod y cread yn wir (Marc 13:19; Ioan 1:10) ac yn gosod dyn yno yn y dechreuad, nid ar ddiwedd miliynau o flynyddoedd (Marc 10:6; Luc 11:50–51). Os cytunwn mai dim ond stori ydi hanes y cread, rydym yn diddymu pwysigrwydd Adda ac Efa a'r ffaith mai drwy Adda y daeth pechod i'r byd, a'r rheswm y croeshoeliwyd Crist. Os bu i'r Iesu farw oherwydd stori, beth mae hynny'n ei ddweud? Mae'n tanseilio ein holl ffydd. Heb amheuaeth, rydym ni'n Cristnogion yn rhoi'r adnoddau i anffyddwyr ein diystyru drwy beidio â chredu yr hyn a honnwn i fod yn air ysgrifenedig Duw.


***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***


## *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth*

| | |
|---|---|
| 12 Gorffennaf | Oedfa Haf yr Ofalaeth yng Nghapel Madog am 10 o'r gloch |
| 14 Medi | Cyfarfod Swyddogion yr Ofalaeth yng Nghapel Seion am 7 o'r gloch |

Bydd yr Astudiaeth Feiblaidd yn ailddechrau ddiwedd Medi – mwy o fanylion i ddilyn gan ysgrifenyddion y gwahanol eglwysi.

Bydd y manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn:
www.capelygarn.org

**Ydych chi ar y we?**

Eisiau newyddion, lluniau, ysbrydoliaeth
– heb orfod codi o'ch cadair?

Tanysgrifiwch i e-fwletin misol **Rhwydwaith**
– yn llawn newyddion, sylw cyfryngau a digwyddiadau
gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Ewch i www.tiny.cc/ebc neu e-bostiwch
mari@ebcpcw.org.uk

Dafydd Timothy
a'i ffrind





Mared, Gwen a Gwilym o Gapel Madog
yn cyflwyno hanes yr Esgyniad



Mae pawb, meddai, yn haeddu marw, eithr fe achubir rhai drwy ras Duw. Dylid plygu'n llwyr i ewyllys Duw a dweud, 'Dy ewyllys Di a wneler'. Ac i Dduw'n unig y perthyn y gogoniant, meddai.

Ymledodd Calfiniaeth i'r eglwysi diwygiedig yn yr Iseldiroedd, yr Alban ac ymhlith y Piwritaniaid yn Lloegr, ac yn nes ymlaen dylanwadodd yn drwm ar y Diwygiad Methodistaidd yng Nghymru. Felly, dyna pam y gelwir aelodau Eglwys Bresbyteraidd Cymru hyd heddiw yn Fethodistiaid Calfinaidd.

*John Tudno Williams*

**Y Gerlan**

*Yn ôl yn y capel – Sul, 7 Mehefin 2009*

Braf oedd cael addoli yn y capel unwaith eto wedi cyfnod yn y festri tra oedd y capel yn cael ei drwsio a'i addurno.

Hyfryd oedd cael cerdded i mewn i gapel glân a golau, a chael oedfa arbennig iawn dan arweiniad y Parchedig Wyn Morris. Hyfryd hefyd oedd clywed seiniau pêr yr organ dan driniaeth ysbrydoledig Eurgain Rowlands.

Estynnwn groeso cynnes iawn i bawb sy'n dymuno ymuno â ni – mae gwir angen mwy i gydaddoli gyda ni er ein cynorthwyo i gadw tystiolaeth yr Efengyl trwy gyfrwng y Gymraeg yn fyw yn y pentref.

### *Aros i feddwl*

Yn y flwyddyn hon o ddathlu genedigaethau rhai o enwogion y gorffennol, buddiol yw cofio mai union bum can mlynedd yn ôl y ganwyd un o ddiwinyddion mwyaf y canrifoedd, John Calfin. Ffrancwr oedd, ond bu raid iddo ffoi i'r Swistir oherwydd erledigaeth am ei fod yn Brotestant. Roedd wedi'i addysgu'n gyfreithiwr ac yn Genefa penderfynodd osod trefn ar y Diwygiad yn y ddinas. Eto, nid oedd yn unben yno ac ni lwyddodd i gael ei ffordd ei hun ymhob achos. Yn wir, ni ellid disgwyl i un fel ef fod yn boblogaidd gyda'i gyfoeswyr. Dywedwyd amdano mai dim ond disgyblion a gelynion oedd ganddo, h.y. roedd yn amhosibl bod yn niwtral ynglŷn ag ef. Ar ei wely angau (ac roedd yn marw'n 55 oed) dywedodd ei hun am bobl un ddinas yn y Swistir: 'Maen nhw bob amser wedi fy ofni i yn fwy na maen nhw wedi fy ngharu i'.

Disgyblaeth oedd popeth iddo, ond nid oedd yn ei arbed ei hun chwaith. Os oedd yn galed wrth eraill, roedd yn galetach wrtho ef ei hun. Bywyd syml oedd ei fywyd, ac roedd yn gwbl onest yn ei siarad ac yn gyfaill cywir. 'Cryfder yr heretic hwn', meddai'r Pab amdano, 'yw na ellir ei hudo ag arian'.

Ei gyfraniad pennaf oedd rhoi trefn ar ddysgeidiaeth a threfniadaeth Protestaniaeth. Meddai ar feddwl clir a miniog ac ysgrifennai mewn ffordd a oedd yn ddealladwy i bawb. Erys ei esboniadau Beiblaidd yn werthfawr hyd heddiw. Fe'i galwyd gan Beza, ei olynydd yn Genefa, yn 'llusern yr eglwys'.

Pregethai athrawiaeth rhagarfaethiad, sef bod pawb wedi'u dewis gan Dduw naill ai i iachawdwriaeth neu i ddamnedigaeth dragwyddol ar wahân i'w haeddiant eu hunain. Fe fu Crist farw ar y Groes, felly, dros yr etholedigion yn unig.

# 'Mae E'n Fyw'

Y Gymanfa Ganu, 10 Mai 2009





Iestyn, Gwern a Glesni o'r Garn yn cyflwyno hanes y daith i Emaus

***Dathlu Uno'r Enwadau***

Arglwydd, dyro fendith heddiw
Ar y cartref newydd hwn,
Dyro glust i'r pererinion
Blygant yma dan eu pwn,
Clyw'r gorfoledd sy'n eu calon
Yn atseinio drwy y gân
Am fod muriau cul enwadaeth
Wedi syrthio'n ddarnau mân.

Dynion doeth yr ysgrythurau
Fu'n dehongli d'eiriau gynt,
Weithiau'n enbyd gyfeiliorni
Ar drofeydd gwyredig hynt,
Ond wrth agor ein calonnau
I'th athrawiaeth syml di
Awn yng ngrym ein nawddsant Dewi,
Awn dros dyle Calfarî.

Gyda ffydd yr eglwys fore
Eto'n sail o dan ein traed
Tystio wnawn i'r byd o'r newydd
Am achubiaeth mawr y gwaed,
Dyro, Dad, i ni yr anadl
A fo'n nerthu i barhau
Yn nhystiolaeth dy efengyl
Rhag i'r drysau fythol gau.

*Vernon Jones*

*Bancio ar Dduw*

Duw ein Iôr yw'r banc sy'n gwrando
Pan fo'r banciau'r byd ar gau,
Etyb ef yn gadarnhaol
Pan fo'r gweddill yn nacáu,
Pan fo'r krugerands yn disgyn
A'r doleri'n mynd fel gwynt,
Mewn dinewid gyfnewidfa
Un sefydlog yw ei bunt.

Mae'n gymdeithas adeiladu
I gartrefi, nid i dai,
Ac mae'r Halifax a'r Abbey
Yn ei ŵydd mynd yn llai;
Llawer ydyw y trigfannau
A ddarparodd yn y nef
Ac mi wn fod yr allweddau'n
Hongian wrth ei wregys ef.

Talodd Crist y morgais drosom,
Dyma'r prynwr gorau gaed,
A phob dogfen gadwedigol
Seliwyd gyda sêl o waed,
Mae pob dyled wedi ei setlo;
Rhoddwyd pob llyfr cownt ar dân,
A llofnodwyd y cytundeb
Gan y Tad a'r Ysbryd Glân.

Dyma'r fan i fentro'r cyfan
Heb i'r prif swm fynd yn llai,
Lle mae'r stociau fyth yn llifo,
Lle mae'r siariau yn ddi-drai.
Mynd a wnaf i fanc y banciau,
Lle mae'r llog yn gant y cant,
A lle rhoir yr un telerau
I'r pechadur ac i'r sant.

Bu farw Einion Evans, awdur y gerdd hon, fis Mai eleni. Fe'i cyfansoddwyd rai blynyddoedd yn ôl, cyn dyfodiad 'gwasgfa ariannol' y dyddiau hyn, a'i recordio gan Aled Lloyd Davies ar ei gryno ddisg *Cyn Cau'r Drws* yn 2007.

### *ARHOSWCH! ... yn enw Duw*

Roedd Capel y Garn yn un o ddegau o eglwysi Eglwys Bresbyteraidd Cymru a agorodd eu drysau ar ddydd Sadwrn, 30 Mai, gan wahodd aelodau ac aelodau o'r cyhoedd i mewn i dreulio munudau tawel o fyfyrdod a gweddi.

Trefnwyd dydd gweddi **ARHOSWCH! ... yn enw Duw** i gofio sut y gwnaeth Duw dywallt ei nerth a'i egni i fywydau pobl, gan ddyfnhau eu hargyhoeddiad a chreu cymuned newydd – yr Eglwys – adeg y Pentecost.


Manteisiodd nifer o aelodau gwahanol eglwysi'r ofalaeth ar y cyfle i dreulio munudau tawel o fyfyrdod a gweddi, dan arweiniad y Gweinidog.

Dyma un o'r gweddïau a ddarllenwyd:

O gwrando ein gweddi, Ysbryd Glân,
  am adnewyddiad yn ein tir.
Rho ym mhob calon newydd dân
  i losgi'n eirias dros y gwir.
O, Ysbryd Glân, rho'r hyder gwiw
i ddweud fod Iesu eto'n fyw.

Pwyntiau gweddi i feddwl amdanynt:

Pobl o'm cwmpas – rhai'n ddiwaith,
yn sâl neu mewn poen,
rhai'n ofnus, rhai'n bryderus



Cymdeithas – straen economaidd,
diweithdra, tensiynau

Teuluoedd – plant, ieuenctid,
rhieni a'r genhedlaeth hŷn

Yr eglwys – ei chryfderau a'i
gwendidau,
cyfleoedd a bygythiadau

Fi fy hun – diolchiadau, gofidiau ac angen am arweiniad,
fy mherthynas â Duw, fy nheulu, fy ngwaith

### *Gwasanaeth Cymorth Cristnogol*

Cynhaliwyd y gwasanaeth Cymorth Cristnogol blynyddol fore Sul, 17 Mai, yn y Garn dan arweiniad ein Gweinidog.




Defnyddiwyd cyflwyniad clyweledol i ategu ei neges ar y thema 'Cariad yw Duw': cariad sy'n adnabod, yn llifo ac yn trawsnewid.



Yn dilyn yr oedfa, cynhaliwyd Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol yn y festri.

### *Cyfrol newydd: Buddug James – Brenhines y Ddrama!*



B.J. – dwy lythyren yn unig ac roedd caredigion byd y ddrama yn adnabod y gwrthrych yn iawn! Doedd dim angen rhagymadroddi rywsut, sioe un fenyw oedd Buddug! Roedd hi'n byw ac anadlu'r ddrama ac yn wir gellir dadlau mai hi oedd y ddrama – ac ar sawl achlysur roedd y perfformans yn digwydd cyn i neb o'i chriw ymddangos ar y llwyfan!

Cyfrol o hel atgofion sydd yma gan drawstoriad o bobl – o'r hen i'r ieuainc, o'r werin i ysgolheigion, o'r de i'r gogledd – pobl y bu i Buddug gyfoethogi eu bywydau ar ryw adeg, ac oes, mae yma lond gwlad o droeon trwstan, straeon lliwgar, cyfrif i ddeg ar brydiau, ond yn anad dim gwerthfawrogiad o gael bod yn ei chwmni. Diolch B.J. am roi'r blas ar y pethe!

*Ei rhoi sy heddiw'n parhau – ei hynni*
*A'i henaid drwy'r sgriptiau*
*A erys, ac mae'r geiriau'n*
*Ennyn tân yn ein to iau.*

Cyhoeddir y gyfrol, a olygwyd gan Andrea Parry, fis Awst eleni gan Gyhoeddiadau Barddas. Pris: £6

Dymuna Ray, Siân ac Ann ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn dilyn eu profedigaeth o golli John (Caergywydd). Diolch am y cardiau, y galwadau ffôn a'r ymweliadau, ac i bawb a gyfrannodd i'r casgliad tuag at Feddygfa'r Borth. Gwerthfawrogwyd y cyfan yn fawr.

Un fersiwn cyfansawdd o *Gair o'r Garn* a gyhoeddwyd y tro hwn, gan fod y rhan fwyaf o'r deunydd yn berthnasol i'r holl ofalaeth. Os nad oes oedfa yn eich eglwys chi yn ystod yr haf, mae croeso i chi ymuno ag oedfaon y Garn/Noddfa – manylion gyferbyn.

Dyma ran o'r neges amserol a phwysig:

***EIN HEDDIW FYDD EIN HYFORY***

Tymheredd a hafau'n cynhesu, capanau rhew yn meirioli, lefelau'r môr yn codi. Sychder a llifogydd. Nadoligau gwyn y gorffennol yn diflannu. Ond tydi o ddim yn newyddion drwg i gyd. O leia' fe gawn ni dorheulo yng Nghymru a chynhyrchu gwin lleol. **Pa mor naïf allwn ni fod?**

**Pa wahaniaeth allwn ni ei wneud?**
Mae popeth bach yn help – ailgylchu a defnyddio bylbiau addas. Mewn gwledydd tlawd tydyn nhw ddim yn ymateb i newid hinsawdd drwy newid bylb golau. Yn aml fydd ganddyn nhw ddim bylb a dim trydan. Wrth wynebu trychinebau, fydd ganddyn nhw ddim yr hanfodion ar gyfer bodoli chwaith.

**Mater o fod yn anlwcus – dyna i gyd!**
Dim o gwbl. Mae'n annheg ac yn anghyfiawn. Y tlawd sy'n cyfrannu lleiaf i'r newid hinsawdd, ond y tlawd gaiff eu heffeithio fwyaf.

Gellir mynd i'r afael â chynhesu byd-eang ac osgoi trychinebau dim ond os ydi pawb yn cydweithio ac yn ymateb ar unwaith. Gwahoddwn ieuenctid y byd i ymuno gyda ni, bobol ifanc Cymru, i wynebu'r her. Mae gan bob person, yn ifanc a hen, ei ran i chwarae, ac mae gan bob cenedl, tlawd a chyfoethog, ei rhan i sicrhau dyfodol diogel. Ein heddiw fydd ein hyfory."

Ar yr un trywydd y lluniwyd Neges Ewyllys Da gan ddisgyblion Ysgol Plasmawr ac Ysgol Fitzalan, Caerdydd eleni, mewn 36 iaith y tro hwn.

***NEWID HINSAWDD: BAI PWY?***

- Ein bai ni …
  Pwy sy'n achosi'r problemau? Ni! Ni yw'r bobl sy'n llygru'r byd.
- Ydych chi'n casáu gweld y newyddion? Ydych chi wedi cael llond bol ar weld delweddau o lifogydd, corwyntoedd, a phob math o broblemau byd-eang?
- Eich dewis chi yw e, dewis byw neu farw. Helpwch ni i greu dyfodol gwell.
- Mae popeth bach yn helpu. Gallwn ddefnyddio llai o drydan, arbed dŵr, ailgylchu, ailddefnyddio a chefnogi elusennau.
- Rhaid i ni wneud ein rhan. Rhaid i ni wynebu'r broblem.
- Gwahoddwn ieuenctid y byd i ymuno gyda ni, bobl ifanc Cymru, i greu dyfodol gwell. Dyfodol gwyrdd. Dyfodol diogel. Gyda'n gilydd gallwn atal cynhesu byd-eang. Rhaid i ni weithredu nawr.
- Newid Hinsawdd: Bai pwy? **Ein bai ni …**

Dewch! … Ystyriwn ninnau gri'r ieuenctid a'u hymdrech i leisio ein cydwybod ni!

*Dewi Hughes*

**"MAE'R HOLL FYD YN EI LAW …"**

*Dyma ail ran erthygl a luniwyd yn wreiddiol ar gyfer rhifyn Haf 2008 o 'Gair o'r Garn' ar faterion yn ymwneud â'r amgylchedd o safbwynt dyletswydd y Cristion. Noder felly fod peth o'r erthygl yn cyfeirio at ddigwyddiadau'r cyfnod hwnnw.*

Fe'm syfrdanir yn fynych gan weledIad ac angerdd consýrn ein hieuenctid am ein hamgylchedd a'n cyfrifoldebau ac a fynegir drwy wahanol gyfryngau a dulliau cyfoes.

Yng Ngorffennaf 2008 dyma fynychu dangosiad o waith creadigol cyw-artistiaid, a oedd yn cael cyfle i arddangos doniau a sgiliau arlunio a feithrinwyd ac a fireiniwyd dros gyfnod o amser. Roedd y thema a ddewiswyd gan rai yn tanlinellu materion o ddwys bwys iddynt a'u hymagwedd at gymdeithas, gwleidyddiaeth a'r amgylchedd, gyda sawl un ohonynt yn mynegi gydag argyhoeddiad aruthrol eu gofid am y bydysawd.



Fe'm trawyd gan gyfres o beintiadau un o'r artistiaid ifainc dan y teitl *Etifeddiaeth Gudd*; roedd yn cyfleu'r ddelwedd o'r byd oherwydd trachwant cyfalafol a materoliaeth y ddynolryw yn toddi ac yn erydu'n ddim [rhyw fath o *melt down*] a hynny'n adlewyrchu hefyd y gofid am ymagwedd dynolryw at y blaned.

Felly, beth yw'r etifeddiaeth a drosglwyddir?

Atseinir geiriau anfarwol Saunders Lewis:

"Gwinllan a roddwyd i'm gofal yw
Cymru fy ngwlad
I'w thraddodi i blant ac i blant fy
mhlant
Yn dreftadaeth dragwyddol …"



Ai gwarchodwyr y trysor ydym neu reibwyr anystyriol hunanol?

Onid dyma amser i wrando llais yr ieuanc? Perthnasol yw Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2008 a draddodwyd gan ddisgyblion Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun [ysgol y cefais y fraint o fod yn athro ynddi] gan ddefnyddio technoleg gyfoes o ddarparu'r cyflwyniad ar gryno ddisg 15 iaith. Diolch i'r Urdd am fod yn gyfrwng i hyrwyddo'r fenter obeithiol hon dros y degawdau.

## Cyhoeddiadau'r Garn

### Gorffennaf

*Blaenor y Mis: Eddie Jenkins*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi Hughes / Marian B Hughes*

**5** Dr Dafydd Tudur
Noddfa yn uno yn y Garn

**12** Oedfa Haf yr Ofalaeth am 10 o'r gloch
yng Nghapel Madog
dan arweiniad y Gweinidog

17 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 7 o'r gloch

**19** Bugail
Oedfa gymun yn y bore

**26** Huw Roderick
Rhodri Glyn

### Awst

*Blaenor y Mis: Marian Beech Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Erddyn James*

**2** Arwyn Pierce am 10 o'r gloch
yng Nghapel Noddfa

**9** Parch Lewis Wyn Daniel (10 a 5 o'r gloch)
Noddfa'n ymuno yn y Garn

**16** Parch J E Wynne Davies am 10 o'r gloch
yng Nghapel Noddfa

**23** Parch J Elwyn Jenkins (10 a 5 o'r gloch)
Noddfa'n ymuno yn y Garn

**30** Oedfa gymun am 10 o'r gloch yng Nghapel Noddfa
dan arweiniad y Parch Richard H Lewis

**Cyhoeddiadau'r Garn**

**Medi**

*Blaenor y Mis: D Bryn Lloyd*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Eddie Jenkins*

**6** Raymond Davies
Y Barch Judith Morris
Yr ysgol Sul yn ailddechrau

**13** Parch Harding Rees
Noddfa yn uno yn y Garn

14 Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth
yng Nghapel Seion am 7 o'r gloch

**20** Bugail
Oedfa gymun ym Methlehem yn yr hwyr

**27** Parch G Madoc Jones
'Sul Croeso 'Nôl' –
cyfle arbennig i wahodd rhywun i ddod gyda chi i'r oedfaon ac i'r rhai nad ydynt yn arfer dod i'r oedfaon i ymuno â ni

Llongyfarchiadau cynnes:

I Mrs Dorothy Rees, Brysgaga gynt, ar enedigaeth wyres fach arall. Croeso i Grace Alexandra, merch fach Mary a Wyn Morgan Rees, a chwaer Sienna.

***Sul Croeso 'Nôl***

Ar 27 Medi 2009 bydd hanner miliwn o bobl yn gwahodd rhywun arbennig i ddod 'nôl i'r capel gyda nhw. Mae pobl yn colli cysylltiad â'r eglwys am bob math o wahanol resymau ond byddai llawer yn dychwelyd petaent yn cael gwahoddiad.

Ar Sul Croeso 'Nôl 2008, fe wnaeth 3,000 o eglwysi ar hyd a lled Prydain wahodd a chroesawu 37,000 o ffrindiau yn ôl atynt.

Eleni am y tro cyntaf, mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn cymryd rhan yn Sul Croeso 'Nôl. Rydym yn gobeithio y bydd llawer o'n haelodau yn cymryd mantais o'r cyfle syml ond gwych hwn i wahodd eu ffrindiau i ddod 'nôl i'r capel efo nhw!

Mae'r syniad wedi tyfu'n anhygoel ers y 'Sul' cyntaf, a drefnwyd yn ardal Manceinion yn 2004, pan wnaeth 160 o eglwysi uno mewn neges syml – 'yn eich colli chi' (*missing you*). Roedd y ffaith fod 1,000 o bobl wedi dod 'nôl i'r eglwys ar y diwrnod hwnnw yn bwnc newyddion ar Radio 4.

Mae'r Sul olaf ym mis Medi yn arbennig o addas i ddod 'nôl i'r capel gan ei fod yn cyd-fynd â dechrau newydd blwyddyn newydd o weithgareddau ar ôl seibiant yr haf, dechrau blwyddyn ysgol newydd a thymor diolchgarwch.

Felly, beth am wahodd ffrind neu gymydog neu aelod o'r teulu i ddod gyda chi i'r capel ar y Sul arbennig yma.

Os nad ydych wedi bod yn dod i'r oedfaon yn ddiweddar – ers misoedd neu flynyddoedd efallai, beth am droi i mewn ar y Sul arbennig yma – bydd croeso twymgalon i chi yn holl eglwysi'r ofalaeth.

